

GOOD  
Day®

# GWNEUD I BETHAU DDIGWYDD.



Gwybodaeth gyrfaedd  
gweithiwr medrus – Cymru

Summit SKILLS

Peirianeg  
Gwasanaethau  
Adeiladau

Dod ag Adeiladau yn Fyw

Felly, pryd oedd y tro diwetha' y cawsoch chi Ddiwrnod Da go iawn? Yr wythnos hon? Yr wythnos diwethaf? Mis diwethaf? Methu â chofio? Gallwch chi ddod o hyd i'ch swydd ddelfrydol o fewn peirianeg gwasanaethau adeiladau, un yr ydych yn ei mwynhau...Dychmygwch hynny!

O osod arddangosfa oleuadau ar gyfer 40,000 o bobl mewn gŵyl gerddoriaeth, creu systemau amgylcheddol unigryw neu ddod ag adeiladau a chartrefi yn fyw, mae'r cyfleoedd yn ddiddiwedd.

Yn y llyfryn hwn cewch wybod am yr ystod eang o opsiynau sydd ar gael a sut y gallwch chi gael Diwrnod Da, bob diwrnod, yn eich gyrfa newydd.

Hefyd gweler ein llyfryn technegwyr a graddedigion ar wahân sy'n cynnwys gwybodaeth ar yrfaoedd fel peiriannydd dylunio, amcangyfrifydd, rheolwr contract neu brosiect a llawer mwy...

## Cynnwys

- 01      Beth yw peirianeg gwasanaethau adeiladau?
- 02      Prentisiaethau, hyfforddiant, a sut i ymuno â'r diwydiant peirianeg gwasanaethau adeiladau
- 03      Tymheru a Rheweiddiad
- 04      Electrodechnegol
- 05      Gwresogi & Awyru
- 06      Plymo



## 01 Beth yw peirianeg gwasanaethau adeiladau?

Mae peirianeg gwasanaethau adeiladau yn bwysig dros ben. Mae'n effeithio ar bopeth rydym yn ei wneud.

Hebdo, byddai adeiladau yn rhy oer yn y gaeaf ac yn rhy boeth yn yr haf. Ni fyddai unrhyw drydan i bweru ein goleuadau a'n cyfrifiaduron; ni fyddai unrhyw sŏn am ddŵr rhedegog; a byddai galw yn y siop leol i brynu rhywbeth i ginio yn amhosib gan na fyddai unrhyw oergelloedd na rhewgelloedd – byddai'n rhaid i ni brynu bwyd ffres bob dydd a'i fwyta yn ein tai oer, tywyll, di-doiled.

### Mae'n swnio ddigon diflas hebdo, tydi?

Nid yn unig yw gwasanaethau peirianeg adeiladau yn hanfodol i'r ffordd yr ydym yn byw, fel llwybr gyrra mae'n cynnig cannoedd o gyfleoedd cyffrous a heriol:

- tymheru a rhewiddiad
- electrodechnegol
- gwresogi ac awyru
- plymo

Gwaith y bobl sy'n gweithio mewn peirianeg gwasanaethau adeiladau yw dylunio, gosod a chynnal y cyfleusterau sy'n caniatáu i ni fyw yn ddiogel ac mewn cysur.

Mae angen cyflenwad cyson o bobl fedrus a phroffesiynol iawn â chydwybod amgylcheddol ar y sector, sy'n fodlon ymgymryd â hyfforddiant o'r safon uchaf a'r cymwysterau sydd ar gael.

Ond nid yw'n dod i ben gyda hynny: mae cyflogwyr yn gwneud ymrwymiad pendant i'w gweithluoedd ac yn treulio llawer o amser a gwario llawer o arian ar ddatblygiad proffesiynol a chyrtsiau byr i addysgu'r sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â heriau newydd.

Mae dros 60,000 o fusnesau peirianeg gwasanaethau adeiladau. Rhyngddynt maent yn cefnogi dros hanner miliwn o bobl ac mae ganddynt drosiant blynyddol o £19.3 biliwn. Maent yn amrywio o gwmnïau â throsiant o sawl miliwn o bunnau i fudiadau bach a pherchnogion unigol.

### Sector y dyfodol

Nid yw peirianeg gwasanaethau adeiladau byth yn aros yn yr unfan ac mae hyn o bryd mae'n geffyl blaen o safbwynt technoleg sy'n amgylcheddol gyfeillgar. Mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar ein bywyd bob dydd bellach a'r bobl sy'n gweithio mewn peirianeg gwasanaethau adeiladau sy'n cwrdd â heriau hyn yn uniongyrchol. Yn ogystal â dylunio a gosod systemau ynni effeithlon, mae'r sector ar y blaen o ran datblygu technoleg amgylcheddol fel gwresogi dŵr solar, ffotofolteddau neu dyrbinau gwynt micro i enwi ond ychydig.



“Taniodd peirianeg gwasanaethau adeiladau fy nychymyg oherwydd bod sgôp anferth i weithio ym mhob math o faes – hyd yn oed dramor.”

Christopher Jenkins  
Prentis Trydanol, RDM Electrical Services

## 02 Prentisiaethau, hyfforddiant, a sut i ymuno â'r diwydiant peirianeg gwasanaethau adeiladau

Gan fod gan beirianeg gwasanaethau adeiladau rai o'r prentisiaethau mwyaf cynhwysfawr sydd ar gael, byddwch wedi'ch paratoi'n dda ar gyfer eich gyrra yn y sector yn y dyfodol. Maent fel a ganlyn:

- Prentisiaeth Fodem Sylfaen yn arwain at Gymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ) Lefel 2, a
- Prentisiaeth Fodem yn arwain at NVQ Lefel 3

Maent yn derbyn parch uchel gan gyflogwyr, ac mae'r ddwy raglen brentisiaeth wedi'u llunio i roi'r wybodaeth a'r sgiliau sylfaenol i chi er mwyn gweithio'n effeithiol ac yn broffesiynol ar y safle. I gael eich cyflogi drwy brentisiaeth bydd angen tri TGAU (gradd C neu uwch) amoch o leiaf mewn mathemateg, Saesneg a phwnc gwyddonol neu dechnoleg.

### Hyfforddiant

Mae llawer i'w ddysgu. Ac mae'n cymryd blynyddoedd i gael eich hyfforddi'n llawn. Mae hyfforddiant yn cynnwys:

- hyfforddiant y tu allan i'r swydd – fel dysgu mewn coleg neu ganolfan hyfforddi, a
- hyfforddiant o fewn y swydd – dyma lle y byddwch yn cymhwyso'r sgiliau a'r wybodaeth y byddwch yn eu hennill yn y coleg neu ganolfan hyfforddi tra'n gweithio i'ch cyflogwr.

Yn gyffredinol bydd yn cymryd rhwng 2 a 4 blynedd i gwblhau'r hyfforddiant, yn dibynnu ar y cynllun prentisiaeth y byddwch yn penderfynu ei ddilyn.

Os nad ydych yn gallu gwneud prentisiaeth, bydd disgwyl o hyd i chi i weithio tuag at NVQ Lefel 2 neu 3, yn dibynnu ar eich galwedigaeth a'ch swydd. I ennill NVQ mae'n rhaid i chi fod mewn cyflogaeth neu fod â'r gallu i gael eich asesu ar safle, yn cyflawni gwaith ar osodiadau go iawn. Dylech fod yn barod i ennill eich cymhwyster dros nifer o flynyddoedd - does dim ffordd gyflym i ennill y cymwysterau gofynnol yn y sector technoleg iawn hwn.





## 03 Beth yw Tymheru a Rheweiddiad?

O gynnal tymheredd aer cyfforddus a lleithder mewn sinema amlgrŵn, i gadw gwaed ar y tymheredd cywir ar gyfer llawdriniaeth sy'n achub bywydau, mae'r diwydiant tymheru a rheweiddiad wedi dod yn rhan hanfodol o'n bywydau.

Mae angen ar y diwydiant hwn, sy'n fedrus ac yn dechnegol iawn, bobl ymrwymedig a brwdfrydig i osod, gwasanaethu a chynnal y systemau yr ydym yn eu cymryd yn ganiataol.

Mae hefyd yn ddiwydiant sy'n cymryd ei gyfrifoldebau i'r amgylchedd o ddirif. Fel peiriannydd tymheru neu reweiddiad, bydd eich gwybodaeth dechnegol a'ch sgiliau ymarferol yn sicrhau bod cynnyrch fel pypiau gwres a nwyon rheweiddiad yn cael eu trin mewn modd diogel ac ecogyfeillgar, ac yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd i'r graddau mwyaf posib.

## Galwedigaethau Tymheru a Rheweiddiad

Galwedigaeth	Gweithgareddau Arbenigol Allweddol. Byddwch yn:	Gweithgareddau Cyffredin Allweddol
Peiriannydd Rheweiddiad	Gosod, gwasanaethu a chynnal systemau rheweiddiad ar draws y DU mewn lleoedd fel archfarchnadoedd, ysbytai, sefydliadau prosesu bwyd ac ymchwil.	Ar draws y ddwy alwedigaeth, byddwch yn: <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithio'n ddiogel</li> <li>Gweithio mewn ffordd amgylcheddol gyfeillgar</li> <li>Ymgymryd â gwaith paratoadol</li> <li>Arolygu, profi, tystysgrifo a chomisiynu</li> <li>Nodi a chywiro namau</li> <li>Darparu gwybodaeth ymarferol a thechnegol</li> <li>Cynnal perthnasoedd gwaith</li> <li>Goruchwylio gweithgareddau gwaith</li> </ul>
Peiriannydd Tymheru	Gosod, gwasanaethu a chynnal systemau ac offer yn ddiogel sy'n rheoli a chynnal ansawdd, tymheredd a lleithder aer o fewn adeiladau modern.	



“Dyma un o'r pethau rwy'n ei hoffi am y swydd - yr amrywiaeth a'r ffaith nad yw dau ddiwrnod yr un peth. A phan rwy' allan ar y safle rwy'n teimlo fy mod yn dysgu drwy'r amser.”

Martin Davey  
Prentis Rheweiddiad a Thymheru, Chilltec Refrigeration

## Pa nodweddion a sgiliau sydd eu hangen amoch?

Mae'r diwydiant tymheru a rheweiddiad yn awyddus i ddenu newydd ddyfodiaid gwrywaidd a benywaidd o ystod amrywiol o gefndiroedd. Y nodweddion a'r sgiliau arferol sydd eu hangen yw:

- sgiliau ymarferol da a sgiliau trin â llaw da
- y gallu i ddilyn lluniadau technegol, cynlluniau adeiladau, a chyfarwyddiadau eraill
- y gallu i weithio'n ofalus yn drefnus ac yn ddiogel
- y gallu i fesur yn gywir
- gweithio ar uchder yn gyfforddus a bod yn barod i weithio ym mhob tywydd
- yn barod i weithio mewn lleoedd cyfyng
- yn daclus gyda ffordd gyfeillgar
- sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar da
- aelod da o dîm yn hefyd yn gallu gweithio o'ch pen a'ch pastwn eich hun
- y gallu i addasu i newid
- sgiliau datrys problemau da
- golwg lliw arferol (ar gyfer peth gwaith) a lefel resymol o ffitrwydd cyffredinol

Ar NVQ Lefel 3 y sgiliau a'r nodweddion ychwanegol yw:

- y gallu i gynllunio a threfnu gwaith eraill
- y gallu i gymell eraill
- sgiliau dadansodol da
- sgiliau gwerthuso da

## Cymwysterau

Mae'r tabl isod yn dangos y cymwysterau cydnabyddedig ar gyfer galwedigaethau tymheru a rheweiddiad a gofynion y fframweithiau prentisiaeth. Mae'r diwydiant tymheru a rheweiddiad yn mynnu bod gennych NVQ Lefel 2 a 3 er mwyn cyflawni statws gweithredydd cymwys, yn dibynnu ar y lefel o gyfrifoldeb a chymhlethdod y systemau y gweithir amynt. Mae'n rhaid i newydd ddyfodiaid gwblhau'r dystysgrif dechnegol a'r NVQ er mwyn cael eu nodi'n weithredydd cymwys.

## Gofynion Prentisiaeth Fodern Sylfaen

Cymhwyster Cymhwysedd:	NVQ Lefel 2 MES Systemau Rheweiddiad a Thymheru Masnachol Bach, mewn naill ai: <ul style="list-style-type: none"> <li>Gosod, neu</li> <li>Gwasanaethu a Chynnal</li> </ul>
Tystysgrif Dechnegol:	Tystysgrif Lefel 2 mewn Systemau Masnachol Bach a Thymheru
Sgiliau Allweddol:	Cymhwyso Rhif Lefel 2 Cyfathrebu Lefel 2 Technoleg Gwybodaeth Lefel 1
Dysgu Arall:	Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth Trin Rhewyddion yn Ddiogel

## Gofynion Prentisiaeth Fodern

Cymhwyster Cymhwysedd:	NVQ Lefel 3 MES Systemau Rheweiddiad a Thymheru mewn naill ai: <ul style="list-style-type: none"> <li>Tymheru Masnachol a Diwydiannol, neu</li> <li>Rheweiddiad Masnachol a Diwydiannol (di-amonía), neu</li> <li>Rheweiddiad Masnachol a Diwydiannol (Systemau Rheweiddiad Amonía)</li> </ul>
Tystysgrif Dechnegol:	Tystysgrif Lefel 3 mewn Systemau Rheweiddiad a Thymheru Masnachol Cymhleth mewn naill ai: <ul style="list-style-type: none"> <li>Tymheru Masnachol a Diwydiannol, neu</li> <li>Rheweiddiad Masnachol a Diwydiannol (di-amonía), neu</li> <li>Rheweiddiad Masnachol a Diwydiannol (Systemau Rheweiddiad Amonía)</li> </ul>
Sgiliau Allweddol:	Cymhwyso Rhif Lefel 2 Cyfathrebu Lefel 2 Technoleg Gwybodaeth Lefel 1
Dysgu Arall:	Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth Trin Rhewyddion yn Ddiogel

Gwybodaeth bellach

Sefydliadau'r diwydiant:

Bwrdd y Diwydiant  
Tymheru a Rheweiddiad:  
[www.acrib.org.uk](http://www.acrib.org.uk)

Cymdeithas Contractwyr  
Gwresogi ac Awyru:  
[www.hvca.org.uk](http://www.hvca.org.uk)

Am wybodaeth ar  
brentisiaethau mewn  
tymheru a rheweiddiad  
cysylltwch â:

[www.best-ltd.co.uk](http://www.best-ltd.co.uk) neu  
ffoniwch 0800 917 8419

Eich coleg lleol  
Mae gan lawer o  
golegau adrannau rheoli  
prentisiaethau

Gyrfa Cymru:  
[www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com)



## 04 Beth yw Electrodechnegol?

Mae hwn yn ddiwydiant amrywiol a chyffrous sydd ar flaen y gad o ran gosod, comisiynu a chynnal technoleg ym mhob math o adeilad, yn cynnwys:

- prosiectau cymhleth fel siopa, stadia chwaraeon, ysbytai a phrosiectau tai newydd
- systemau ceblau data, trin data ac opteg ffibr uwch
- systemau rheoli adeiladau a reolir gan gyfrifiadur
- systemau ynni adnewyddadwy, fel tyrbinau gwynt neu ffotofolteddau
- offer rheoli ar gyfer gweithgynhyrchu a phrosesu diwydiannol cymhleth.

Mae'r diwydiant electrodechnegol yn broffesiynol, yn gyfrifol ac wedi'i ddiogelu o safbwynt y dyfodol. Mae'n cynnig dyfodol wedi'i warantu, llwybr gyrfa llawn o adael yr ysgol i gymwysterau proffesiynol, a thâl da.

O waith domestig i brosiectau peirianneg mawr – mae'r byd electrodechnegol yn cynnig amrywiaeth o swyddi na cheir eu tebyg mewn meysydd eraill. Fel gweithiwr electrodechnegol bydd gennych ddewisiadau niferus am y math o waith yr ydych yn ei wneud a'r llwybr cynnydd gyrfa yr ydych yn ei ddilyn.

## Galwedigaethau Electrodechnegol

Galwedigaeth	Gweithgareddau Arbenigol Allweddol. Byddwch yn:	Gweithgareddau Cyffredin Allweddol:
Trydanwr Gosod	Gosod pŵer, goleuo, diogelwch tân, diogeleda a cheblau strwythuredig	Ar draws pob galwedigaeth, byddwch yn:
Adeiladwr Paneli Electrodechnegol	Adeiladu'r paneli rheoli sy'n rheoli systemau rheoli adeiladu a phrosesu diwydiannol	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithio'n ddiogel</li> <li>• Gweithio mewn ffordd amgylcheddol gyfeillgar</li> <li>• Ymgymryd â gwaith paratoadol</li> </ul>
Trydanwr Atgyweirio ac Ailweindio Peiriannau	Atgyweirio a chynnal moduron trydanol, sy'n gyrru offer a pheiriannau fel cywasgwyr, pypiau a gwyntyllau o fewn adeiladau	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Arolygu, profi, tystysgrifo a chomisiynu</li> <li>• Nodi a chywiro namau</li> <li>• Darparu gwybodaeth ymarferol a thechnegol</li> <li>• Cynnal perthnasoedd gwaith</li> <li>• Goruchwyllo gweithgareddau gwaith</li> </ul>
Trydanwr Offeryniaeth	Comisiynu, profi, canfod namau ac atgyweirio systemau rheoli adeiladau a phrosesu diwydiannol	
Trydanwr Cynnal	Cynnal systemau trydanol modern a'r offer y maent yn eu gwasanaethu i sicrhau gweithredu effeithiol ac effeithlon	
Trydanwr Systemau Priffyrdd	Gosod a chynnal goleuadau stryd a systemau rheoli traffig	

## Pa nodweddion a sgiliau sydd eu hangen amoch?

Mae'r diwydiant electrodechnegol yn awyddus i ddenu newydd ddyfodiaid gwrywaidd a benywaidd o ystod amrywiol o gefndiroedd. Y nodweddion a'r sgiliau arferol sydd eu hangen yw:

- sgiliau ymarferol da a sgiliau trin â llaw da
- sgiliau mathemategol da
- y gallu i ddilyn lluniadau technegol, cynlluniau adeiladau, diagramau
- weirio a chyfarwyddiadau eraill
- y gallu i weithio'n ofalus yn drefnus ac yn ddiogel
- y gallu i fesur yn gywir
- gweithio ar uchder yn gyfforddus a bod yn barod i weithio ym mhob tywydd
- yn barod i weithio mewn lleoedd cyfyng
- yn daclus gyda ffordd gyfeillgar
- sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar da
- aelod da o dîm yn hefyd yn gallu gweithio o'ch pen a'ch pastwn eich hun
- y gallu i addasu i newid
- sgiliau datrys problemau da
- golwg lliw arferol a lefel resymol o ffitrwydd cyffredinol
- sgiliau dadansoddol da
- sgiliau gwerthuso da
- y gallu i gynllunio a threfnu gwaith eraill
- y gallu i gymhell eraill

## Cymwysterau

Mae'r tabl isod yn dangos y cymwysterau cydnabyddedig ar gyfer galwedigaethau electrodechnegol a gofynion y fframweithiau prentisiaeth. Mae'r diwydiant electrodechnegol yn mynnu bod gennych NVQ Lefel 3 er mwyn cyflawni statws gweithredydd cymwys. Mae'n rhaid i newydd ddyfodiaid gwblhau'r dystysgrif dechnegol a'r NVQ er mwyn cael eu nodi'n weithredydd cymwys.

### Gofynion Prentisiaeth Fodern Sylfaen

Cymhwyster Cymhwysedd:	NVQ Lefel 2 Gosod Systemau Electrodechnegol, neu NVQ Lefel 2 Gosod Systemau Electrodechnegol Priffyrdd
Tystysgrif Dechnegol:	Tystysgrif Lefel 2 mewn Technoleg Electrodechnegol
Sgiliau Allweddol:	Cymhwyso Rhif Lefel 2 Cyfathrebu Lefel 2 Technoleg Gwybodaeth Lefel 1
Dysgu Arall:	Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth

[Gwybodaeth bellach](#)

**Sefydliadau'r diwydiant:**

Cymdeithas Contractwyr Trydanol:  
[www.eca.co.uk](http://www.eca.co.uk)

Y Bwrdd Diwydiannol ar y cyd ar gyfer y Diwydiant Contractio Trydanol:  
[www.jib.org.uk](http://www.jib.org.uk)

**Am wybodaeth ar brentisiaethau electrodechnegol cysylltwch â:**

BEST:  
[www.best-ltd.co.uk](http://www.best-ltd.co.uk) neu ffoniwch 0800 917 8419

JTL:  
[www.jtltraining.com](http://www.jtltraining.com) neu ffoniwch 0800 0852308

Eich coleg lleol  
Mae gan lawer o golegau adrannau rheoli prentisiaethau

Gyrfa Cymru:  
[www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com)

### Gofynion Prentisiaeth Fodern

Cymhwyster Cymhwysedd:	NVQ Lefel 3 Gwasanaethau Electrodechnegol mewn naill ai: • Gosod Trydanol – Adeiladau a Strwythurau, neu • Cynnal Trydanol, neu • Gosod Offeryniaeth, neu • Systemau Trydanol Priffyrdd, neu NVQ Lefel 3 Adeiladu Paneli Electrodechnegol, neu NVQ Lefel 3 Ailweindio ac Atgyweirio Peiriannau Trydanol
Tystysgrif Dechnegol:	Tystysgrif Lefel 3 mewn Technegol Electrodechnegol
Sgiliau Allweddol:	Cymhwyso Rhif Lefel 2 Cyfathrebu Lefel 2 Technoleg Gwybodaeth Lefel 1
Dysgu Arall:	Asesiad Perfformiad Ymarferol Lefel 3 Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth



## 05 Beth yw Gwresogi ac Awyru?

O'r delltiau awyru y gallwch eu gweld ar wal ystafell ddosbarth, i'r rhwydweithiau pibellau mawr sy'n croesi nenfydau ffatrioedd, mae cliwiau ynghylch sut mae adeiladau'n gweithio o'n cwmpas ym mhob man. Ym mhob man y byddwn yn mynd iddo, siop, swyddfa, neu labordy hyd yn oed, gallwn weld y systemau cywir a chymhleth sy'n gwneud i'r adeiladau hynny weithio.

Mae'r diwydiant gwresogi a thymheru yn gosod systemau blaengar a thechnolegau newydd fel pypiau gwres ffynhonnell aer a daear i wneud adeilad mor ynni effeithlon â phosib. Ond nid tasg hawdd mohoni: mae'n gofyn am bobl gymwys iawn â'r gallu i addasu a chymhwyso eu sgiliau i osod y systemau cymhleth hyn:

- Mae gosodwyr pibellau a dwythellau yn defnyddio eu sgiliau i dorri, ffurfio, weldio ac uno ystod eang o ddeunyddiau a ddefnyddir o fewn system
- Mae peirianwyr rheoli a chomisiynu yn defnyddio eu gwybodaeth i sicrhau bod systemau yn cwrdd â'r gofynion dylunio ar gyfer yr adeilad
- Mae peirianwyr cynnal yn nodi namau, eu hatgyweirio ac, yn bwysicach, yn cynllunio ac yn cynnal gweithgareddau gwasanaethu a chynnal ar systemau, i sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithlon ac yn effeithiol.

## Galwedigaethau Gwresogi ac Awyru

Galwedigaeth	Gweithgareddau Arbenigol Allweddol. Byddwch yn:	Gweithgareddau Cyffredin Allweddol:
Gosodwr Gwresogi	Gosod offer gwresogi cymhleth a systemau pibellau i fanylebau dylunio cywir o fewn adeiladau mawr fel swyddfeydd, ysbytai, ysgolion ac ati	Ar draws pob galwedigaeth, byddwch yn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithio'n ddiogel</li> <li>• Gweithio mewn ffordd amgylcheddol gyfeillgar</li> <li>• Ymgymryd â gwaith paratoadol</li> <li>• Arolygu, profi, tystysgrifo a chomisiynu</li> <li>• Nodi a chywiro namau</li> <li>• Darparu gwybodaeth ymarferol a thechnegol</li> <li>• Cynnal perthnasoedd gwaith</li> <li>• Goruchwyllo gweithgareddau gwaith</li> </ul>
Gosodwr Dwythellau	Gosod systemau dwythellau ac awyru cymhleth i fanylebau dylunio cywir o fewn adeiladau mawr	
Gosodwr Gwresogi Domestig	Gosod a chomisiynu systemau gwres canolog domestig a sicrhau eu bod yn gweithio'n gywir ac yn effeithlon	
Peiriannydd Gwasanaethu a Chynnal	Datblygu rhaglenni gwasanaethu a chynnal a gwneud gwaith cynnal rheolaidd ac atgyweiriadau ar yr holl systemau ac offer gwresogi ac awyru	
Peiriannydd Comisiynu	Sicrhau bod y systemau yn cwrdd â'u manyleb dylunio wreiddiol	
Peiriannydd Rheoliadau	Datblygu a gosod systemau rheoliadau mewn adeiladau i sicrhau bod y systemau yn gweithio i gwrdd ag anghenion y defnyddiwr	

## Pa nodweddion a sgiliau sydd eu hangen amoch?

Mae'r diwydiant gwresogi ac awyru yn awyddus i ddenu newydd ddyfodiaid gwrywaidd a benywaidd o ystod amrywiol o gefndiroedd. Y nodweddion a'r sgiliau arferol sydd eu hangen yw:

- sgiliau ymarferol da a sgiliau trin â llaw dda
- y gallu i ddilyn lluniadau technegol, cynlluniau adeiladau, a chyfarwyddiadau eraill
- y gallu i weithio'n ofalus yn drefnus ac yn ddiogel
- y gallu i fesur yn gywir
- gweithio ar uchder yn gyfforddus a bod yn barod i weithio ym mhob tywydd
- yn barod i weithio mewn lleoedd cyfyng
- yn daclus gyda ffordd gyfeillgar
- sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar da
- aelod da o dîm yn hefyd yn gallu gweithio o'ch pen a'ch pastwn eich hun
- y gallu i addasu i newid
- sgiliau datrys problemau da
- golwg lliw arferol a lefel resymol o ffitrwydd cyffredinol

Ar NVQ Lefel 3 y sgiliau a'r nodweddion ychwanegol yw:

- y gallu i gynllunio a threfnu gwaith eraill
- y gallu i gymell eraill
- sgiliau dadansoddol da
- sgiliau gwerthuso da

## Cymwysterau

Mae'r tabl isod yn dangos y cymwysterau cydnabyddedig ar gyfer galwedigaethau gwresogi ac awyru a gofynion y fframweithiau prentisiaeth. Mae'r diwydiant gwresogi ac awyru yn mynnu bod gennych NVQ Lefel 2 a 3 er mwyn cyflawni statws gweithredydd cymwys, yn dibynnu ar y lefel o gyfrifoldeb a chymhlethdod y systemau y gweithir arnynt. Mae'n rhaid i newydd ddyfodiaid gwblhau'r dystysgrif dechnegol a'r NVQ er mwyn cael eu nodi'n weithredydd cymwys.

## Gofynion Prentisiaeth Fodern Sylfaen

Cymhwyster Cymhwysedd:	NVQ Lefel 2 MES Gosod Gwresogi ac Awyru, naill ai: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diwydiannol a Masnachol, neu</li> <li>• Domestig, neu</li> <li>• Dwythellau, neu</li> </ul> NVQ Lefel 2 MES Cynnal Gwresogi ac Awyru Cydrannau Systemau
Tystysgrif Dechnegol:	Tystysgrif Lefel 2 mewn Gosod Gwresogi ac Awyru, naill ai <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diwydiannol a Masnachol, neu</li> <li>• Domestig, neu</li> <li>• Dwythellau, neu</li> </ul> Tystysgrif Lefel 2 Cynnal Gwresogi ac Awyru Cydrannau Systemau
Sgiliau Allweddol:	Cymhwyso Rhif Lefel 2 Cyfathrebu Lefel 2 Technoleg Gwybodaeth Lefel 1
Dysgu Arall:	Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth

## Gofynion Prentisiaeth Fodern

Cymhwyster Cymhwysedd:	NVQ Lefel 3 MES Gosod Gwresogi ac Awyru, naill ai: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diwydiannol a Masnachol, neu</li> <li>• Domestig, neu</li> <li>• Dwythellau, neu</li> </ul> NVQ Lefel 3 MES Cynnal Gwresogi ac Awyru Cydrannau Systemau
Tystysgrif Dechnegol:	Tystysgrif Lefel 3 mewn Gosod Gwresogi ac Awyru, naill ai <ul style="list-style-type: none"> <li>• Diwydiannol a Masnachol, neu</li> <li>• Domestig, neu</li> <li>• Dwythellau, neu</li> </ul> Tystysgrif Lefel 3 Cynnal Gwresogi ac Awyru Cydrannau Systemau
Sgiliau Allweddol:	Cymhwyso Rhif Lefel 2 Cyfathrebu Lefel 2 Technoleg Gwybodaeth Lefel 1
Dysgu Arall:	Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth

[Gwybodaeth bellach](#)

**Sefydliadau'r diwydiant:**

Cymdeithas Contractwyr Gwresogi ac Awyru:  
[www.hvca.org.uk](http://www.hvca.org.uk)

**Am wybodaeth ar prentisiaethau mewn gwresogi ac awyru cysylltwch â:**

BEST:  
[www.best-ltd.co.uk](http://www.best-ltd.co.uk) neu ffoniwch 0800 917 8419  
JTL:  
[www.jtltraining.com](http://www.jtltraining.com) neu ffoniwch 0800 0852308

Eich coleg lleol – Mae gan lawer o golegau adrannau rheoli prentisiaethau

Gyrfa Cymru:  
[www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com)



## 06 Beth yw Plymo?

Dychmygwch fod rhaid i chi gynnu tan yn eich cartref i gadw'n gynnes. Neu fod golchi eich dwylo yn golygu caŕglu dŵr oer o ffynnon ar ddiwedd y stryd. Mae'n swnio'n rhyfedd i ni nawr, ond plymwyr sy'n gyfrifol am yr amgylcheddau cyfforddus, glân a diogel yr ydym yn byw, gweithio ac ymlacio ynddynt.

Mae plymo yn ddiwydiant ymatebol sy'n datblygu'n barhaus. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae technolegau amgylcheddol wedi'u hintegreiddio o fewn y diwydiant ac mae'r plymwr modern bellach yn ymgymryd ag amrywiaeth fawr o swyddi, yn cynnwys:

- gosod a chynnal systemau gwres canolog, systemau dŵr poeth ac oer a systemau draenio
- gosod, comisiynu a chynnal systemau gwresogi dŵr solar, casglu dŵr glaw neu ailgylchu dŵr llwyd
- gosod a chynnal offer nwy, olew a thanwydd solet.

Mae plymo yn cynnig dyfodol da i chi, llwybr gyfra llawn yn arwain at gymwysterau proffesiynol, a thâl da. Nid oes byth dau ddiwmod yr un peth – o newid wasier mewn tap i osod system dŵr peth solar, mae plymwr yn gweithio ar brosiectau domestig, masnachol a diwydiannol sy'n cynnig amrywiaeth a her.

## Galwedigaethau plymo

Galwedigaeth	Gweithgareddau Arbenigol Allweddol. Byddwch yn:	Gweithgareddau Cyffredin Allweddol:
<b>Plymwr Domestig NVQ Lefel 2</b>	Gosod systemau gwres canolog dŵr oer, dŵr poeth, glanweithdra, dŵr glaw, gwlyb a systemau tywydd llenblwm nad ydynt yn gymhleth	Ar draws pob galwedigaeth, byddwch yn: <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gweithio'n ddiogel</li> <li>• Gweithio mewn ffordd amgylcheddol gyfeillgar</li> </ul>
<b>Plymwr Domestig NVQ Lefel 3</b>	Gosod systemau gwresogi dŵr oer, dŵr poeth, glanweithdra cymhleth, ac offer domestig sy'n llosgi tanwydd fel boeleri nwy, olew neu danwydd solet Dylunio systemau Cynllunio gweithgareddau gwaith Gwella cynnyrch busnes	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymgymryd â gwaith paratoadol</li> <li>• Comisiynu a dadgomiynu systemau</li> <li>• Nodi a chywiro namau</li> <li>• Cynnal perthnasoedd gwaith</li> </ul>
<b>Plymwr Diwydiannol a Masnachol NVQ Lefel 3</b>	Gosod gwres diwydiannol a masnachol, cyflenwad tanwydd, offer arbenigol a systemau diogelu tân	

## Pa nodweddion a sgiliau sydd eu hangen amoch?

Mae'r diwydiant plymo yn awyddus i ddenu newydd ddyfodiaid gwrywaidd a benywaidd o ystod amrywiol o gefndiroedd. Ar lefel NVQ 2 y nodweddion a'r sgiliau arferol sydd eu hangen yw:

- sgiliau ymarferol da a sgiliau trin â llaw da
- y gallu i ddilyn lluniadau technegol, cynlluniau adeiladau, a chyfarwyddiadau eraill
- y gallu i weithio'n ofalus yn drefnus ac yn ddiogel
- y gallu i fesur yn gywir
- gweithio ar uchder yn gyfforddus a bod yn barod i weithio ym mhob tywydd
- yn barod i weithio mewn lleoedd cyfyng
- yn daclus gyda ffordd gyfeillgar
- sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar da
- aelod da o dîm yn hefyd yn gallu gweithio o'ch pen a'ch pastwn eich hun
- y gallu i addasu i newid
- sgiliau datrys problemau da
- golwg lliw arferol (ar gyfer peth gwaith) a lefel resymol o ffitrwydd cyffredinol

Ar NVQ Lefel 3 y sgiliau a'r nodweddion ychwanegol yw:

- y gallu i gynllunio a threfnu gwaith eraill
- y gallu i gymell eraill
- sgiliau dadansodddol da
- sgiliau gwerthuso da

## Cymwysterau

Mae'r tabl isod yn dangos y cymwysterau cydnabyddedig ar gyfer galwedigaethau plymo a gofynion y fframweithiau prentisiaeth. Mae'r diwydiant plymo yn mynnu bod gennych NVQ Lefel 2 a 3 er mwyn cyflawni statws gweithredydd cymwys, yn dibynnu ar y lefel o gyfrifoldeb a chymhlethdod y systemau y gweithir amynt. Mae'n rhaid i newydd ddyfodiaid gwblhau'r dystysgrif dechnegol a'r NVQ er mwyn cael eu nodi'n weithredydd cymwys.

## Gofynion Prentisiaeth Fodern Sylfaen

<b>Cymhwyster Cymhwysedd:</b>	NVQ Lefel 2 MES Plymo
<b>Tystysgrif Dechnegol:</b>	Tystysgrif Lefel 2 mewn Astudiaethau Plymo Sylfaenol
<b>Sgiliau Allweddol:</b>	Cymhwyso Rhif Lefel 2 Cyfathrebu Lefel 2
<b>Dysgu Arall:</b>	Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth

## Gofynion Prentisiaeth Fodern

<b>Cymhwyster Cymhwysedd:</b>	NVQ Lefel 3 MES Plymo Domestig, neu NVQ Lefel 3 MES Plymo Diwydiannol Masnachol
<b>Tystysgrif Dechnegol:</b>	Tystysgrif Lefel 3 mewn Astudiaethau Plymo Domestig, neu Tystysgrif Lefel 3 mewn Astudiaethau Plymo Diwydiannol a Masnachol
<b>Sgiliau Allweddol:</b>	Cymhwyso Rhif Lefel 2 Cyfathrebu Lefel 2
<b>Dysgu Arall:</b>	Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth

[Gwybodaeth bellach](#)

**Sefydliadau'r diwydiant:**

Cymdeithas Contractwyr Plymo a Gwresogi:  
[www.aphc.co.uk](http://www.aphc.co.uk)

Sefydliad Siertredig Plymo a Pheirianneg Gwresogi:

[www.ciphe.org.uk](http://www.ciphe.org.uk)

Bwrdd Diwydiant ar y Cyd ar gyfer Gwasanaethau Plymo Peirianneg Fecanyddol yng Nghymru a Lloegr:  
[www.jib-pmes.org.uk](http://www.jib-pmes.org.uk)

**Am wybodaeth ar brentisiaethau mewn plymo cysylltwch â:**

BEST:  
[www.best-ltd.co.uk](http://www.best-ltd.co.uk) neu  
ffoniwch 0800 917 8419

JTL:  
[www.jtltraining.com](http://www.jtltraining.com) neu  
ffoniwch 0800 0852308

Eich coleg lleol  
– Mae gan lawer o  
golegau adrannau rheoli  
prentisiaethau

Gyrfa Cymru:  
[www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com)



“Rwy'n falch iawn o'r ffaith nad wyf erioed wedi derbyn cwyn am fy ngwaith ac mae gweld cwsmer hapus yn rhoi boddhad mawr i mi.”

Alf Ramsay  
Perchennog, Ramsay Plumbing & Heating

Ar ôl i chi gwblhau eich NVQ byddwch yn cael Diwrnod Da, bob diwrnod, gyda chydabyddiaeth y diwydiant a pharch eich cyfoedion tuag at eich sgiliau a'ch gallu. Ond mwy na hynny, mae gennych sylfaen gref hefyd i fynd â'ch gyrfa i ble bynnag yr hoffech fynd.

Efallai y byddwch yn penderfynu parhau yn eich rôl newydd a chymryd mwy o dasgau goruchwyllo wrth i chi ennill profiad. Neu efallai yr hoffech drosglwyddo eich sgiliau i bobl sy'n ymuno â'r sector. Gallech hyd yn oed symud i mewn i rôl fwy technegol, fel dylunio neu reoli prosiect.

Gallwch wneud hyn i gyd drwy ddatblygu sgiliau ymhellach - mae datblygu'ch hun yn barhaus drwy gyrsiau hyfforddiant, Tystysgrifau Cenedlaethol Uwch a Diplomâu, neu wahanol raddau yn golygu bod dim pen draw i'ch gyrfa.

Edrychwch ar ein llyfryn technegwyr a graddedigion am fwy o ddewisiadau gyrfa a galwedigaethau, neu edrychwch ar y map gyrfaoedd rhyngweithiol ar ein gwefan, neu'r poster map gyrfaoedd, i weld i ble y gall eich Diwrnod Da fynd â chi.



I gael gwybod mwy am sut y gallwch gael Diwrnod Da, bob diwrnod, yn eich gyrfa newydd, ewch i'n gwefan yn [www.goodday.org.uk](http://www.goodday.org.uk) neu ffoniwch y llinell gymorth gyrfaoedd ar 08000 688 336.